

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6

Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2019

Cyngor Cymuned Llanddarog

Cyflwyniad a'r Cyd-destun

Mae Cyngor Cymuned Llanddarog yn gweithio i ymateb i anghenion lleol er mwyn gwella safon byw ym mhentrefi Llanddarog, Porthyrhyd a Mynyddcerrig, trwy hyrwyddo datblygiad cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol, gan gynnwys cefnogi nifer o grwpiau chwaraeon, diwylliannol a chymunedol sy'n chwarae rhan amlwg ym mywyd y gymuned.

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i fioamrywiaeth ac ardaloedd naturiol. Rydym yn hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth trwy ddilyn nodau cynaliadwyedd ac arferion cynaliadwy pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, fel y dynodir yn ein polisi Bioamrywiaeth (mabwysiadwyd Rhagfyr 2019).

Nid yw'r Cyngor yn ddarostyngedig i ofynion adrodd Lles Cenedlaethau'r Dyfodol oherwydd maint ei gyllideb.

Adroddiad Gweithredu

Camau gweithredu i:		Wedi eu monitro gan:
-cynnwys bioamrywiaeth o fewn llunio penderfyniadau a chaffael	Mabwysiadau Polisi Bioamrywiaeth yn Rhagfyr 2019. Ymgysylltu ag arbenigwyr cyn gwneud penderfyniadau. Yn dilyn cyngor wrth y Cyngor Sir, byddwn yn ail-blannu coed i gymryd lle coed efallai fydd yn rhaid i ni eu disodli os effeithir arnynt gan glefyd coed ynn - 'ash dieback'. Plannwyd y coed yma gan gennym yn wreiddiol cyn 2016.	Cofnodion Rhagfyr 2019 Cofnodion Tachwedd 2019
-codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd	Ystyried bioamrywiaeth wrth gymryd rhan mewn digwyddiadau casglu sbwriel cymunedol. Nodi'r Cyng M Rees fel 'pencampwraig bioamrywiaeth' y Cyngor ym mis Tachwedd 2019.	Cofnodion Mawrth/Ebrill 2019 Cofnodion Tachwedd 2019.

-diogelu y prif rywogaethau a'r cynefinoedd	Byddwn yn rhoi ystyriaeth briodol i fioamrywiaeth wrth adolygu ein rhaglen torri gwair cymunedol. Ystyriwyd argymhellion adolygiad y Cyngor Sir o ddarpariaeth cynnal a chadw perthi ac ymylon priffyrdd.	Cofnodion (trafodaeth i ddod yn y dyfodol) Cofnodion Tachwedd 2019.
-adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth	Hyd yma ni nodwyd unrhyw rywogaeth ymledol.	Parhaus - Clerc a Phencampwraig Bioamrywiaeth.
-mynd i'r afael ag elfennau negyddol: lleihau llygredd e.e. defnyddio atebion yn seiliedig ar natur, mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynol	Byddwn yn defnyddio ein polisi Bioamrywiaeth i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.	Parhaus - mae tystiolaeth o'r penderfyniadau yn y cofnodion.
-defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth	Byddwn yn dod i'r adroddiad hwn ar ein gwefan i godi ymwybyddiaeth.	Gwefan.
-cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau eraill	Efallai y byddwn yn cynnig cymorth ariannol i grwpiau eraill ar sail gais - gyda rai ohonynt yn hyrwyddo bioamrywiaeth fel diddordeb allweddol.	Cofnodion

Arolwg o ddyletswydd Adran 6

- Beth sydd wedi gweithio'n dda? Beth fu'r rhwystrau? Beth fyddwch yn ei newid?

Casglwyd cryn dipyn o sbwriel yn ystod y casgliad sbwriel. O ystyried mai ychydig o gyfleoedd sydd gennym i effeithio ar fioamrywiaeth oherwydd diffyg perchnogaeth o unrhyw dir (a chyfrifoldeb am gynnal ychydig bach o dir yn unig), bu ein ffocws ar ymgorffori bioamrywiaeth yn ein penderfyniadau. I'r perwyl hwn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisi bioamrywiaeth ac wedi nodi pencampwraig bioamrywiaeth.

Byddwn yn newid trwy ymateb i'n polisi Bioamrywiaeth sydd â thargedau ynddo.

- Sut a phryd fydd y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a'r cynllun Adran 6 wedi'i adolygu?

Mae fframwaith polisi'r Cyngor yn cael ei adolygu'n flynyddol. Bydd y cynllun Adran 6 hwn, ynghyd â'n Polisi Bioamrywiaeth, yn rhan o'r adolygiad hwn.